# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 12 Gorffennaf 1999 ar gyfer Cyfarfod Llawn 14 Gorffennaf 1999.

**Cynnig M66VB – Dadl Plaid Leiafrifol – (Mike German)**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Ar y ddwy linell olaf: dileu "ar unwaith" ac ar ôl "y Ddogfen Strategaeth Genedlaethol", ychwaneger y geiriau "ar ôl ymgynghori â busnesau, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol, academyddion a phartneriaid eraill". **(M66VB)**

**Cynnig M67VB – Penderfynu ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau**

**(Andrew Davies)**

**Rod Richards (*Gogledd Cymru);***

Dileu'r gair "cymeradwyo" a rhoi'r gair "nodi" yn ei le. Ar ôl "1999", ychwaneger "ac yn cyfeirio'r Penderfyniad drafft at y Corff Adolygu Cyflogau iddo ei ystyried ac yna iddo baratoi adroddiad i'w roi ger bron y Cynulliad gyda'i argymhellion terfynol cyn gynted ag sy'n rhesymol." **(M67VB)**

**Jenny Randerson (*Canol Caerdydd)***

Dileu llinellau 6-7 o bara 2.1.2; "darparu Cyflog ychwanegol i 'Arweinydd y Blaid fwyaf nad yw'n cael ei chynrychioli yn y Cabinet"

Ac yn rhoi yn eu lle: 2.1.2a:

"Ni ddylai fod darpariaeth ar gyfer talu cyflog ychwanegol sy'n dilysu rôl *de facto* 'Arweinydd yr Wrthblaid', gan y byddai hynny ond yn atgynhyrchu model seneddol San Steffan heb gymryd i ystyriaeth y sefyllfa luosog a geir yn awr yng Nghymru gyda'r system pedair Plaid." **(M67VB)**

**Cynnig M61VB – Dadl Plaid Leiafrifol – (Phil Williams)**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod (ychwaneger gwelliannau):

Dileer y pwynt bwled cyntaf a rhoi yn ei le:

"yn nodi, yn unol â’r ffordd y gweithiwyd fformwla Barnett yn y gorffennol ar gyfer pennu cyllideb y Swyddfa Gymreig y trosglwyddwyd y cyfrifoldebau amdano i’r Cynulliad ar 1 Gorffennaf, y tynnwyd gwariant y llywodraeth ar brojectau a gynorthwyir gan gronfeydd strwythurol yr UE (sef cyfraniad yr UE yn ogystal â chydran y llywodraeth o’r ‘cyllid cyfatebol’) o’r gyllideb heb ychwanegiad awtomatig i dalu am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd;"

Yn dileu yn llinell 1 yr ail bwynt bwled y geiriau "ar ôl y blynyddoedd 2000-1" a rhoi’r geiriau "ar ôl y blynyddoedd 2000-2" yn eu lle.

Ym mharagraff pedwar, llinell 3 a 4, dileer y geiriau "oherwydd oedi o safbwynt cytuno ar fformwla ddiwygiedig ar gyfer cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi yn eu lle "oherwydd amheuon neu oedi gyda chyllideb y Cynulliad Cenedlaethol."

Dileu paragraff pump a rhoi yn ei le:

"Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi hefyd bod y Prif Ysgrifennydd wedi sicrhau bod y Trysorlys yn cytuno i ystyried, yn ôl eu rhinweddau fel rhan o’r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, geisiadau gan y Cynulliad ynghylch goblygiadau ennill Statws Amcan Un ar wariant cyhoeddus. Gelwir ar y Prif Ysgrifennydd i drafod gyda’r Trysorlys y cynnig: